

**Ystyr tlodi yw bod heb ddigon o arian ar gyfer pethau rydych chi angen, fel bwyd neu wres neu ddillad**

# **Fe wnaethon ni holi plant a phobl ifanc am dlodi.**

## **Dyma beth ddwedson nhw**

### **Tlodi yn yr ysgol**

- Mae llawer o blant a phobl ifanc yn cael eu bwlio oherwydd bod y wisg ysgol gywir ddim ganddyn nhw
- Mae hynny'n gallu ypsetio nhw a gwneud iddyn nhw boeni
- Mae bwlio'n gas, dyw e ddim yn deg, a ddyle fe ddim digwydd
- Dylai fod rhywle i ailgylchu gwisg ysgol ym mhob ysgol
- Dylai triplau ysgol fod am ddim, fel bod pawb yn gallu mynd
- Mae pawb yn haeddu parch



### **Tlodi gartref**

- Mae trydan yn ddrud iawn, a dyw rhai teuluoedd ddim yn gallu fforddio defnyddio fe drwy'r amser
- Mae hynny'n golygu weithiau bod dim gwres na golau na rhyngwyd gartref
- Mae hynny'n gwneud gwaith cartref yn anodd iawn, ac maen nhw eisiau i oedolion ddeall hynny
- Yn aml does dim digon o fwyd gartref, felly mae llawer o blant yn llwglyd
- Dyw plant a phobl ifanc ddim bob amser yn gallu fforddio cwrdd â ffrindiau. Mae hynny'n gallu gwneud nhw'n unig

Ystyr tlodi yw bod heb ddigon o arian ar gyfer pethau rydych chi angen, fel bwyd neu wres neu ddillad

# Fe wnaethon ni holi plant a phobl ifanc am dlodi. Dyma beth ddwedson nhw sydd angen newid

- Dim rhagor o fwlio. Dyw e ddim yn deg bod plant yn cael eu bwlio am fethu fforddio pethau
- Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael digon o fwyd. Dylen nhw i gyd gael prydau ysgol am ddim
- Dylai fod lle i ailgylchu'r wisg ym mhob ysgol, fel bod pob plentyn yn gallu fforddio gwisg ysgol
- Gwahardd logos ar wisg ysgol. Maen nhw'n gwneud y wisg yn ddrud, ac allwch chi ddim prynu nhw mewn archfarchnad
- Mae angen i bawb, gan gynnwys oedolion, ddeall sut brofiad yw byw mewn tlodi
- Dylai'r isafswm cyflog fod yn fwy, fel bod teuluoedd yn gallu fforddio prynu bwyd
- Dylai budd-daliadau gael eu cynyddu, fel bod teuluoedd yn gallu fforddio talu am rent a bwyd
- Angen trafndiaeth gyhoeddus sy'n costio llai, fel bod plant a phobl ifanc yn gallu cyrraedd yr ysgol, a rhieni'n gallu cyrraedd y gwaith

- **Trin pawb yn gyfartal. Mae pawb ohonon ni'n haeddu parch a chael ein trin yn garedig, beth bynnag yw ein hamgylchiadau**



PLANT YNG NGHYMURU  
CHILDREN IN WALES